Wedi ymadael o Naples ar Awst 3ydd cyrhaeddodd Loegr erbyn diwedd Hydref ac ar ôl cyrraedd i Lundain cafodd gryn drafferth i berswadio gwyr y tollau mai ei ddarluniau fo'i hun oedd yn ei feddiant.

Ond yr oedd sioc arall yn ei aros, pan aeth i dy y 'cyfaill' James yr ymddiriedodd ei ddarluniau iddo cyn ymadael am y cyfandir, cafodd hwy mewn seler laith wedi pydru a difetha i gyd.

Yr oedd ei frawd hynaf, John, wedi etifeddu'r stad ond yr oedd peth incwm yn dod i ran Thomas fel nad oedd angen iddo boeni am ei gynhaliaeth. Er ei fod erbyn hyn yn byw'n gysurus yn Llundain nid oedd wedi mentro i Bencerrig am ei fod yn betrus ynglyn â'r derbyniad a gâi gan y teulu, a oedd yn sicr o wybod erbyn hyn am ei amgylchiadau teuluol.

Yr oedd hi'n Awst y flwyddyn ddilynol arno yn mentro i Bencerrig.

Yn 1787 bu farw John y mab hynaf a daeth Thomas i'w lawn etifeddiaeth. Ymddengys fodd bynnag fod ei fam yn hollol anfodlon ar ei sefyllfa deuluol a daeth i lawr i Lundain, gan aros hefo un o'i frodyr, a'u cymell i briodi cyn y deuent i Bencerrig a hynny a wnaed, ond fel y dengys R.C.B. Oliver yn ei lyfr ar y teulu, nid oes yr un ohonynt wedi arwyddo y dystysgrif briodas.

Ar ei ffordd yn ôl i Bencerrig bu farw'r fam yn nhŷ ei mab Frederick, yn Aberhonddu. Wedi i Thomas a Maria ymsefydlu ym Mhencerrig aeth ati i ddatblygu y stad gan blannu coed a gwneud llynoedd, yn ogystal â phaentio rhyw gymaint. Fe'i gwnaed yn aelod o'r fainc a'i ethol yn ddiweddarach yn Uchel Siryf, yn union fel ei daid, John Jones o'i flaen, a hynny er eu bod o gefndir ymneilltuol.

Mor wahanol oedd ei amgylchiadau ef yn niwedd ei oes o'i gymharu â'i hen feistr, Richard Wilson, a syrthiodd i ddygn dlodi a chael ei ddwyn yn ôl i Lanferes i ddiweddu ei oes yn nhŷ ei gyfneither.

Rhyw ddwy flynedd cyn ei marwolaeth yn 1799 dechreuodd iechyd Maria ddirywio ac mae'n bosib mai yn y cyfnod yma y trefnwyd i'r artist Eidalaidd hwnnw, Francesco Renaldi, baentio llun y teulu. Roeddynt wedi cyfarfod â Renaldi yn ystod eu arhosiad yn Naples, ac mae'r llun yma i'w weld yn yr Amgueddfa yng Nghaerdydd.

Mae Maria yn eistedd yn wyrgam ar y chwith o flaen y dröell nyddu, ac mae Elisabetha yn eistedd wrth y piano ac Ann Maria gyferbyn a hi, ond mae'r ddwy ferch yn edrych i gyfeiriad eu Mam fel pe baent yn poeni amdani. Gwelir Thomas ar dde y llun yn sefyll yn gorffyn trwm a'i fochau'n goch gan liw y gwin.

Saif o flaen ei ganfas gyda'i 'pallet' a'i frwsus yn un llaw a'i fraich arall yn pwyso ar gefn cadair yr eistedda Elisabetha arni. Yn y cefndir y mae wyneb ac ysgwyddau dyn sydd wedi peri tipyn o ddyfalu, ond gallasai fod yn un o frodyr Thomas.

Bu farw Thomas yn Ebrill 1803 a chladdwyd ef ym meddrod y teulu yng nghapel y Cae Bach. Codwyd y capel hwn gan y Parch Thomas Jones, sef tad ei fam. Un o'r gweinidogion hynotaf a fu'n gweinidogaethu yn ystod amser y teulu a chael nodded hael ganddynt oedd y Parch John Thomas Rhaeadr Gwy.

Os cewch gyfle i ymweld â'r hen gapel bach nodedig yma gwelwch dabled fawr ar y mur yn cofnodi aelodau'r teulu a gladdwyd yno, ond sylwch yn ofalus, nid yw enw Maria yno!

Cyn cloi y sylwadau hyn hoffwn dynnu eich sylw at ffaith hynod a dynwyd fy sylw ati gan Prys Morgan yn ei ddarlith sef fod tri o'r un cyfnod wedi cadw dyddlyfr neu gofiant, sef yr arlunydd ei hun, y Parch John Thomas, a Frederick, brawd yr arlunydd oedd yn swyddog gyda chwmni India'r Gorllewin.

# Yn eisiau — ditectif

Gan MARY BURDETT-JONES

CEFAIS brofiad rhyfedd rai blynyddoedd yn ôl o ddal yn fy llaw slip Geiriadur Prifysgol Cymru yn cynnwys dyfyniad o lyfr yr ymddengys nad oes dim un copi ohono ar glawr bellach.

Yn Libri Walliae Eiluned Rees dan y rhif 557 lle ceir bidog yn dynodi nad yw hi erioed wedi gweld copi, cyfeirir yr ymholwr at Hanes Llenyddiaeth Gymreig Charles Ashton t.179 sy'n crybwyll 'Cyd Gordiad neu Dremiad ar y T'stament Newydd, Lle y gwelir, ar ba wirionedd mai'r Efengylwyr a'r Apostolion yn llefaru, a'r cwbl yn rhedeg yn ol yr Egwyddor A.B.C. At ba un y chwanegwyd y deng gair Deddf. Ac Hymn. Am Waredigaeth Pechadur trwy Jesu Grist. Argraphwyd tros Dafydd Lewis, ar ddymuniad amryw o Sir Forganwg. Gan R. Thomas, yn Heol Awst, Caerfyrddin. M.DCC.LXIV.'

Mae Ashton yn lladd ar gofnod Gwilym Lleyn o'r llyfr hwn yn Llyfryddiaeth y Cymry fel annghywir ac annghyflawn'.

Sut mae dyfyniadau o'r llyfr coll wedi dod yn rhan o gasgliad slipiau'r Geiriadur? Chwiliais yn ein harchif a chefais fod y Parch. William Edwards, Caerau, Pen-y-bont ar Ogwr, wedi ysgrifennu at R.J. Thomas, Golygydd cyntaf y Geiriadur, yn ôl yn 1938 i ofyn a oedd 'Cyd Gordiad/neu/DREMIAD/ ar y T'STMENT/NEWYDD . . .' wedi ei ddarllen, gan roi bras amcan o olwg y tudalen teitl.

Aeth ymlaen i godi dros gant o ddyfyniadau o'r gyfrol, i gyd wedi eu teipio'n daclus gyda'r gair dan sylw mewn inc coch, gan gynnig ystyron a sylwadau defnyddiol. Mawr yw dyled y Geiriadur i'w ddarllenwyr gwirfoddol dros y blynyddoedd.

* * * *

GAN FOD chwilen yn fy mhen ynglŷn â llyfrau a llawysgrifau coll, bob tro y byddai slip o'r llyfr yn ymddangos yng nghwrs ein gwaith byddwn yn gwneud serocs ohoni. A chofio bod slipiau'r llyfr hwn ar chwâl ymhlith rhyw ddwy filiwn o slipiau rwy'n ei chyfrif yn dipyn o gamp fod cymaint â phymtheg o ddyfyniadau o'r llyfr gennyf!

Mae iaith y Cyd Gordiad yn ddeheuol, 'Crist yn tawelu'r Storom, / A Bwrw'r Diawl i mas' (t.2). Disgrifia'r Parch. William Edwards y cynnwys fel barddoniaeth neu beth o'r efengylau ar gân.

Diddorol yw cymharu hyn â sylw Ashton wrth geisio penderfynu ai yr un Dafydd Lewis oedd yn gyfrifol am y Cyd Gordiad ag am Caniadau Nefol 1714: 'y mae cynwysiad y Cyd Gordiad yn dangos yr un tlodi barddonol a geir yn y Caniadau Nefol'. A ydyw'r canlynol yn cyfrif fel barddoniaeth? 'Canmolodd y Canwriad, / Rhoes Fab o farw'n fyw, / Mae Gwagedd o'u meddiannau / Yn gweni (sic) i Fab Duw.' (t.5), Da parchu'r Awdurdodau, / A phawb yn ol eu lle. / Mewn pethau sydd ganolig / Na fyddwch dynn medd e.' (t.11), 'Gorchmynai iddynt gadw / Rhag drwg Gwmpeini'r Fall; / Ac yno mae'n diweddu ? Ei lythyr fel y llall.' (t.15).

A chofio bod Ashton yn disgrifio'r Caniadau Nefol fel '(p)obpeth heblaw cynnyrch awen' gellir dweud yn sicr bod y dyfyniadau yn ategu hyn!

Ni wn a oedd y llyfr yn eiddo'r Parch. William Edwards ai peidio. Tybed a ŵyr darllenwyr Y Casglwr rywbeth am hynt y gyfrol hon neu am fodolaeth copi arall ohoni?

# EICH RHODDION HAEL

£20: D. Lloyd, Edenbridge.
£15: A. O. Griffiths, Llansadwrn.
£12: G. J. Evans, Penygroes.
£11: N. Williams, Waunfawr.
£10: Siop Lyfrau'r Hen Bost; B. Hall, Caerdydd, E. Parry, Bangor.
£9: G. T. Michell, Talybont.
£7: William George a'i Fab, Porthmadog; Rh. ap Rhisiart, Garndolbenmaen; W. J. Rees, Tyddewi; J. T. Jenkins, Llangeler; Dr E. W. Jones, Y Rhiw.
£6: G. Rh. Williams, Caerdydd; A. Eames, Bangor; R. Griffith, Creigiau.
£5: Mrs E. Owens, Porthaethwy; D. A. Pretty, Pontypridd; A. Jones, Caernarfon; G. Jarvis, Bangor; T. Huws, Cemaes; A. D. Davies, Wrecsam.
£4: Miss H. A. Rees, Caerfyrddin; J. E. Young, Cricieth; W. D. Davies, Aberystwyth; E. Rowlands, Cerrig-y-drudion; G. Rh. Roberts, Llanidloes; D. E. Davies, Caerdydd; A. Pleming, Llanfairpwll; A. A. Williams, Llandegai.
£3: R. O. Roberts, Abertawe; R. T. Jones, Penygroes; O. Llywelyn, Llanrug.
£2: M. M. Eckley, Harlech; W. R. Howells, Cwmllynfell; Mrs V. Owen, Abertsywyth;; Y Parch W. Rh. Nicholas, Porthcawl; E. P. Roberts, Blaenau Ffestiniog; G. A. Davies, Llangwyryfon; B. Wood, Blaenau Ffestiniog; R. G. Williams, Pwllheli; W. B. Jones, Abererch; M. Williams, Pontyberem; D. G. Jones, Rhostryfan; C. Ll. Gruffudd, Llandegfan; B. Ll. Hughes, Caerdydd; Mrs G. P. Williams, Bae Trearddur; B. Hughes, Caerdydd; H. Jones, Rhandirmwyn; H. Pryce, Bethesda; G. E. Jones, Blaenau Ffestiniog; A. Thomas, Casnewydd; I. Jones, Caerdydd; A. Jones, Garndolbenmaen; M. Roberts, Pentrecelyn; A. Rowlands, Llangefni; O. D. Roberts, Caerdydd; W. Hughes, Talwrn; G. Pennant, Pontypridd; O. Jones, Mynytho; Dr G. T. Hughes, Tregynon; M. Roberts, Llandegla; E. Jones, Llanbedr Pont Steffan; D. Tomos, Llanllechid.
£1 A. W. Jones, Castell Nedd; G. M. G. Jones, Caergybi; E. V. Jones, Penrhyndeudraeth; Mrs Rh. Morgan, Brynaman; A. Jones, Penisarwaun.

Gwasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon
Gwynedd
Ffôn: Caernarfon
(0286) 4486
Argraffwyr a
Chyhoeddwyr